# Cofnodion Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 10 Chwefror 2022 am 3.00pm**

**Yn bresennol:** A S Lewis (Cadeirydd) fu'n llywyddu

Leanne Ahern, Cyngor Abertawe
Amanda Carr, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe
Kelvyn Curry, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Adam Hill, Cyngor Abertawe
Steve King, Cyngor Abertawe
Thom Lynch, Hope in Swansea (Matt's Café)
Yr Athro Chris Jones, Llywodraeth Cymru
Trudi Meyrick, Heddlu De Cymru
Alun Michael, Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Keith Reid Prif Weithredwr - Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Lynne Saunders, Prosiect SWAN
Paul Thomas, Cyngor Abertawe
Roger Thomas, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mark Wade, Grŵp Iechyd a Thai
Samantha Woon Cyngor Abertawe
Tracey Worth, Carchar a Gwasanaeth Prawf EM

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Joanne Abbott-Davies, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Mark Brace, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Martyn Evans, Cyfoeth Naturiol Cymru
Sian Harrop-Griffiths, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Deanne Martin, Carchar a Gwasanaeth Prawf EM
Phil Roberts, Cyngor Abertawe
Rob Stewart

## 33 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd Chris Jones, Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru, i'r cyfarfod.

## 34 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 35 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021 fel cofnod cywir yn amodol ar y diwygiadau canlynol:

- Diwygio Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.
- Cofnod Rhif 18 – diwygio Y Cynghorydd Kelvyn Curry i'r Cynghorydd Kelvin Watson Curry.

## 36 Y diweddaraf am Gamau Gweithredu'r Cyfarfod Blaenorol

Dim.

## 37 Cwestiynau gan y cyhoedd

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 38 Diogelwch Cymunedol:

Hope in Swansea (Matts Cafe)

Rhoddodd Thom Lynch ddiweddariad ar gyfeiriadur yr ap a oedd yn cynnwys manylion 118 o wasanaethau cymorth cymeradwy.  Bwriadwyd i'r ap gael ei ddefnyddio wrth gefnogi unigolion agored i niwed ag anghenion amrywiol ac mae am ddim i'w lawrlwytho.

Defnyddir yr ap gan y 109 o wirfoddolwyr yn Nhŷ Matthew yn wythnosol felly mae'n caniatáu i wiriadau gael eu gwneud i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gyfredol. Cyfeiriodd at waith y tîm diogelu ac arwain gan sicrhau bod diwydrwydd dyladwy yn cael ei arsylwi wrth gymeradwyo darparwyr cymorth.

Datblygwyd yr ap o ganlyniad i gyllid gan Gyngor Abertawe, Cymdeithas y Plant a Chyfeillion Tŷ Matthew a chroesawir rhoddion pellach.

Cyfeiriodd Mr Lynch at yr adborth cadarnhaol a gafwyd mewn perthynas â'r ap ac anogodd gydweithwyr i rannu manylion yr ap er mwyn denu mwy o gynulleidfa.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Lynch am ei gyflwyniad llawn gwybodaeth a'r fenter ragorol.

Prosiect SWAN

Rhoddodd Lynne Sanders drosolwg cynhwysfawr o'r prosiect a oedd â’r nod o gefnogi menywod y mae'r diwydiant rhyw yn eu hecsbloetio'n rhywiol ar y strydoedd, mewn puteindai ac ar-lein.

Roedd 231 o fenywod wedi cael eu cefnogi, yr oedd y mwyafrif llethol ohonynt yn fenywod a gafodd eu hecsbloetio ar y strydoedd. Rhannwyd y gwasanaeth yn ddwy adran, yn ystod y dydd ac yn ystod y nos.

Nodwyd bod gan ganran fawr o'r menywod ar y strydoedd broblemau gyda sylweddau a'u bod yn y system cyfiawnder troseddol. Roedd ymgysylltu yn allweddol wrth ddatblygu ymddiriedaeth defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar leihau niwed ac mae'n darparu llawer o wasanaethau gan gynnwys mynediad at bresgripsiynau, tai, cynyddu incwm, cymorth lles, bwyd etc. Manylodd ar y gwaith ar y cyd a oedd yn mynd rhagddo, yn enwedig rhannu gwybodaeth â'r Heddlu.

Cyfeiriodd Ms Sanders at anawsterau sy'n gysylltiedig â rhedeg y prosiect o ganlyniad i gyllid grant heb unrhyw ffrwd incwm warantedig. Cyfeiriodd at y diffyg strategaeth ar draws Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot mewn perthynas â chynorthwyo menywod y mae'r diwydiant rhyw yn eu hecsbloetio.

Cafwyd trafodaeth ynghylch rôl Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel, Llywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wrth dynnu sylw at waith y gwasanaeth, datblygu strategaeth a oedd yn annog gweithio mewn partneriaeth a sicrhau cyllid.

Diolchodd y Cadeirydd i Ms Sanders am ei chyflwyniad llawn gwybodaeth a chanmolodd waith parhaus y gwasanaeth.

<u>Rheoli Integredig Troseddwyr</u>

Rhoddodd Tracy Worth drosolwg o Reoli Integredig Troseddwyr. Nododd y Pwyllgor gefndir, demograffeg, digwyddiadau ymgysylltu â phartneriaethau, nodau, dadansoddiad o ddata Rheoli Integredig Troseddwyr – dadansoddiad anghenion, trais domestig a chamddefnyddio sylweddau yn Abertawe a phatrymau troseddu.

Manylodd Mr Alun Michael ar ei waith wrth geisio pennu'r garfan leol o droseddwyr ym mhob un o'r saith awdurdod lleol ar draws de Cymru a phwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth. Dywedodd fod rheoli troseddwyr yn amhosib os nad oedd data i ddangos pwy oeddent. Canmolodd waith rheoli integredig troseddwyr a chyfeiriodd at waith cadarnhaol y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel a'r Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel. At hynny, dywedodd mai dim ond drwy weithio gyda phartneriaid lleol, yn enwedig yr awdurdod lleol, y gellid llwyddo.

Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Ms Worth ei bod wedi ymgysylltu â'r Gwasanaeth Ynadon.

Diolchodd y Cadeirydd i Ms Worth am ei chyflwyniad llawn gwybodaeth a chanmolodd waith parhaus y gwasanaeth.

Grŵp Digwyddiadau Tyngedfennol - Y Stryd Fawr

Cyflwynodd Paul Thomas adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Grŵp Digwyddiadau Tyngedfennol – y Stryd Fawr, y cynnydd a wnaed hyd yma a dod â'r grŵp i ben.

Nododd y Pwyllgor y cefndir, y canlyniadau a'r casgliad i'r graddau yr oedd y grŵp bellach wedi cwblhau'r gwaith a byddai'n parhau i gyflawni drwy fusnes fel arfer. Roedd y Grŵp wedi cytuno i gau'r ffrydiau gwaith a'r Grŵp Digwyddiadau Tyngedfennol.  Fodd bynnag, byddai monitro parhaus yn parhau fel rhan o Grŵp Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel.

Cyfeiriodd at y gefnogaeth a gafwyd gan Hope in Swansea a Phrosiect SWAN.

Nododd Aelodau'r Pwyllgor y cydweithio cadarnhaol wrth fynd i'r afael ag agenda anodd a chymhleth iawn.  Roedd cydweithio wedi galluogi datblygu lleihau risg. Ystyriwyd yr angen am un cyfarfod arall o'r grŵp hwn i archwilio'r gwersi a ddysgwyd/a nodwyd er mwyn cynorthwyo grwpiau digwyddiadau tyngedfennol yn y dyfodol.  Cyfeiriwyd hefyd at y buddsoddiad sylweddol a gynlluniwyd ar gyfer ardal y Stryd Fawr, gan gynnwys adleoli'r Swyddfa Tai Ardal a datblygu man cymunedol a fyddai'n galluogi cymorth i aelodau mwyaf agored i niwed gymdeithas.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Thomas am ei gyflwyniad llawn gwybodaeth ac ymdrechion y tîm.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Kelvyn Watson Curry at benodiad diweddar Mr Roger Thomas fel Dirprwy Brif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.  Llongyfarchodd y Pwyllgor Mr Thomas ar ei benodiad.

[Gadawodd y Cynghorydd A S Lewis, Cadeirydd, y cyfarfod]

Roger Thomas, Cadeirydd oedd yn llywyddu (yn y cyfamser).

## 39 Adroddiad Blynyddol/Cyflwyniad Cytundeb Compact y Trydydd Sector Abertawe

Rhoddodd Amanda Carr a Jane Whitmore yr wybodaeth ddiweddaraf am Gytundeb Compact Trydydd Sector Abertawe a'r gwaith a welwyd hyd yma gan Grŵp Cydgysylltu Compact a ffurfiwyd fel rhan o Gytundeb Compact Abertawe a ddiweddarwyd gyda'r Sector Gwirfoddol yn 2018.

Nododd Aelodau'r Pwyllgor gefndir, nodau, amcanion a phwrpas, aelodaeth, uchafbwyntiau, goblygiadau COVID a rhaglen waith ar gyfer y dyfodol, cyllid y trydydd sector 2021 (Grantiau a Chontractau).

Dywedodd Adam Hill y byddai'r diweddariad yn cael ei ychwanegu at y Rhaglen Waith fel eitem barhaus.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Amanda Carr fod perthynas gref rhwng y Bwrdd Iechyd.

Diolchodd y Cadeirydd i Amanda Carr a Jane Whitmore am eu cyflwyniad addysgiadol a'u gwaith parhaus.

## 40 Diweddariad/Drafft i'w gymeradwyo - Asesiad o Les Lleol

Cyflwynodd Steve King adroddiad a oedd yn manylu ar ddatblygiadau diweddar Asesiad o Les Lleol Abertawe 2022.

Nododd Aelodau'r Pwyllgor y datblygiadau diweddar, yr amserlen a'r dadansoddiad a'r camau/camau gweithredu nesaf.

Mynegwyd pryder ynghylch y diffyg hyblygrwydd o ran yr amserlenni ar gyfer cwblhau a oedd wedi'u trefnu ar gyfer 5 Mai, 2022.

Byddai Asesiad o Les Lleol Drafft 2022 yn cael ei fireinio ymhellach a'i anfon at Aelodau'r Pwyllgor cyn dechrau'r ymgynghoriad ffurfiol.

Diolchodd y Cadeirydd i Steve King a'i dîm am yr adroddiad llawn gwybodaeth a'r gwaith sy'n mynd rhagddo.

## 41 Trafodaeth Cynnwys y Cyhoedd (Llafar)

Cyfeiriodd Adam Hill at yr heriau a wynebir wrth hyrwyddo ymgysylltu â'r cyhoedd.

Er mwyn rhoi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor ystyried strategaethau/syniadau ar gyfer hyrwyddo ymgysylltu â'r cyhoedd, cytunwyd y dylid gohirio'r mater i'r cyfarfod nesaf ac y byddai'n cael ei grybwyll ar ddechrau'r agenda.

## 42 Rhaglen waith ar gyfer y dyfodol

Cyfeiriodd Adam Hill at gais gan Dŵr Cymru i gyflwyno ei Gynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff i gyfarfod yn y dyfodol.

Rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i'w gydweithwyr am y pecyn cymorth ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru a nodwyd mai'r dyddiad cau ar gyfer y cais oedd 28 Chwefror 2022. Byddai Abertawe'n arwain y cais ar ran rhanbarth Bae'r Gorllewin gyda mewnbwn gan bartneriaid ar draws y Bwrdd. O ystyried yr amserlenni cyfyngol ar gyfer cyflwyno ceisiadau, ni fu'n bosib cyflwyno'r cais i'r Pwyllgor.

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.43pm

**Cadeirydd**